

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

Medi 7fed, 2016

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Croeso'n ôl wedi'r gwyliau haf. Rydym yn gobeithio eich bod wedi mwynhau y gwyliau haf ac yn barod am flwyddyn arall brysur yn yr ysgol.

Hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth bwysig i chi ar gychwyn y tymor newydd.

Cyswilt gyda'r athrawon dosbarth:

Gallwch e.bostio'r athrawon dosbarth yn uniongyrchol os oes angen. Gallwch wneud hyn ar gyfer hysbysu o absenoldeb, newid amseroedd nosweithiau rhieni a.y.y.b. Oherwydd rhesymau amddiffyn data, ni ddylid defnyddio'r e.bost i gyfnewid gwytodaeth cyfrinachol. Isod gwelir cyfeiriad e.bost pob athro. Ni ddylid defnyddio'r system e.bost i wneud cwyn.

Miss Amy Morris	MorrisA21@hwmail.net
Miss Laura Lewis	LewisL109@hwmail.net
Mrs Miriam Jones	MorrisM22@hwmail.net
Mrs Gwyneth Williams	WilliamsG55@hwmail.net
Miss Manon Davies	DaviesM125@hwmbail.net
Miss Delyth Dempsey	DempseyD1@hwmail.net
Miss Sioned Charters	ChartersS@hwmail.net
Mr Alun Roberts	RobertsA55@hwmail.net
Miss Bethan Morris	MorrisB16@hwmail.net
Mr Dyfan Jones	JonesD106@hwmail.net
Mrs Manon Williams	WilliamsM1666@hwmail.net
Miss Eiliw Evans	EvansE42@hwmail.net
Mr Sion Owen	OwenS19@hwmail.net
Mr Owen / Miss Davies	inclusion@hwmail.net

Cofiwch gysylltu a'r ysgol os ydych yn ansicr o unrhyw beth,. Rydym yma i helpu a rydym wastad yn awyddus i drafod unrhyw faterion a datrys unrhyw broblem er llês y plant.

Yn y lle cyntaf, os oes gennych bryder ynghylch eich plentyn (addysg/ymddygiad ayyb) - cysylltwch â'r **athro/athrawes dosbarth**. Efallai y cewch eich cyfeirio at aelod arall o staff yr ysgol.

Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb - dylech chi gysylltu gyda **Mrs Gwyneth Williams** (Pennaeth Cyfnod Sylfaen), **Mrs Manon Williams** (Pennaeth Cyfnod Allweddol 2) neu **Mr Dyfan Jones** (Dirprwy Bennaeth).

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltwch â **Mr Rhodri Jones** (Pennaeth)

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, dylech gysylltu â **Mr Aled Roberts**, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.

Athrawon gyda chyfrifoldebau penodol:

Cydgysylltydd Llês a Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yw **Mr Sion Owen**. Mae Mr Owen ar gael i drafod pryderon sydd yn ymwneud a datblygiad a llês eich plentyn, ac i drafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gallai'r ysgol ei gynnig i'ch plentyn os oes angen.

Bydd **Miss Manon Davies** a **Mr Alun Roberts** yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro presenoldeb a phrydlondeb, ac yn cyd-weithio gyda Swyddog Llês yr ysgol.

Nosweithiau Cwricwlaidd

Cynhelir nosweithiau cwricwlaidd yn ystod trydydd wythnos y tymor. Bydd yn gyfle i gyfarfod gyda athro dosbarth eich plentyn, a derbyn ychydig o wybodaeth am y flwyddyn.

Dydd Llun, Medi 19eg

Bl. 3 a 4	5.30 p.m. Cyfrwng Cymraeg	6.00 p.m. Cyfrwng Saesne
Bl 5 a 6	5.30 p.m. Cyfrwng Saesneg	6.00 p.m. Cyfrwng Cymraeg

Dydd Mawrth, Medi 20fed

Bl.1 a 2	5.30 p.m. Cyfrwng Cymraeg	6.00 p.m. Cyfrwng Saesneg
----------	---------------------------	---------------------------

Dydd Mercher, Medi 21ain

Meithrin / Derbyn	6.00 p.m. Dwy ieithog
-------------------	-----------------------

Absenoldebau:

Mae presenoldeb uchel yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynych'r ysgol yn ddyddiol. Gofynnir i chi gysylltu a'r ysgol yn syth ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn. **Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda.** Byddwn yn monitro ac mewn cyswllt gyda chi os fydd ffigyrau presenoldeb yn disgyn i lefel anerbyniol.

O ran gwybodaeth, mae , 10 diwrnod ysgol o absenoldeb yn rhoi presenoldeb o 95%, 15 diwrnod o absenoldeb yn rhoi ffigwr o 92% a 20 diwrnod o absenoldeb yn rhoi ffigwr o lain a 90%. Targed y Llywodraeth, yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yw fod presenoldeb uwchlaw 95%.

Mae werth nodi os yw plenty yn methu 15 diwrnod ysgol ym mhob blwyddyn, rhwng oedran o 3-16, bydd ef hi wedi methu blwyddyn llawn o addysg. Hefyd, gan fod amryw o blant yr ysgol o deuluoedd ble nad Cymraeg yw iaith gyntaf y cartref, mae methu ysgol yn gallu cael effaith negyddol iawn ar ddatblygiad ieithyddol y plentyn .

Bydd Pennaeth yr ysgol yn penderfynu os y bydd yr ysgol yn awdurdodi ceisiadau am absenoldeb yn ystod y tymor.

Bydd yn ddibynol ffigyrau presenoldeb presennol y plentyn yn ogystal a ffigyrau presenoldeb blaenorol. Dylid gwneud unrhyw geisiadau am gael absenoldeb o'r ysgol drwy lythyr i'r Pennaeth. Ni fydd ceisiadau am fwy na 5 diwrnod yn cael ei hawdurdodi

Mae hawl gan yr ysgol drwy drafodaethau gyda'r Awdurdod Lleol, gyflwyno Rhybudd Cosb Benodedig o £60 pan fydd presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol sydd heb ei hawdurdodi.

Clwb Brecwast a Chlwb ar ôl ysgol :

Mae clwb brecwast yr ysgol yn cychwyn am 8 o'r gloch. Gall y plant fwynhau brecwast syml (cereal, tost, ffrwyth a diod) am ddim. Gofynnwn i'r plant gyrraedd cyn 8.30 os am gymryd mantais o'r gwasanaeth hwn. Am 8.45 bydd disgyblion CA2 yn ymadael a'r clwb i fynd ar y buarth. Bydd plant y Cyfnod Sylfaen yn cael ei harwain o'r clwb i'w dosbarth. Ni does angen hysbysu os ydych am ddefnyddio'r clwb ymlaen llaw, ond bydd angen cwblhau ffurflen gofrestru ar y diwrnod cyntaf.

Mae'r clwb ar ol ysgol yn rhedeg o 3:15 pm hyd at 5:30 pm. Cost y clwb yw £3 o 3:15 to 4:30 p.m. ac yna £3 ychwanegol o 4:30 hyd at 5:30 p.m. Bydd y plant yn derbyn byrbryd a diod ac yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Ni dderbynir mwy na 40 o blant yn y clwb ac felly bydd angen trefnu ymlaen llaw os am le i'ch plentyn, drwy Miss Lowri Jarvis.

Clybiau ar ol ysgol

Bydd ymarfer dawnsio creadigol yn dechrau Dydd Gwener yma a'r clybiau ar ôl ysgol yn ail-ddechrau wythnos nesaf.. Yn y clybiau hyn, byddent yn cael y profiad o sawl chwaraeon gwahanol. Gwneir pob ymdrech i beidio a gohirio'r clybiau, ac felly ni fydd angen i chi gysylltu gyda'r ysgol pan fo'r tywydd yn anffafriol. Bydd sesiynau sgiliau yn cael eu cynnal yn neuadd yr ysgol.

Llun	Urdd - Cerdd Creadigol	Bl.3-6	3.15 - 4.15 p.m.
Mawrth	Clwb chwaraeon bechgyn	Bl. 3-6	3.15 - 4.15 p.m
Mercher	Clwb Gymnasteg	Bl. 1 a 2: 3.15 - 4.15 p.m.	Bl. 3-6: 4.15-5.15 p.m.
Iau	Clwb chwaraeon Merched	Bl.3-6	3.15- 4.15p.m.
Gwener	Urdd - Dawnsio Creadigol	3.15 - 5.00 p.m.	

Parcio a thir yr ysgol

Hoffwn eich atgoffa i gymryd gofal yn y maes parcio ac i barchu'r rheolau parcio. A fydddech cystal a gwneud pob ymdrech i osgoi parcio ar y gwair. Mae'r ysgol yn tyfu, ac o ganlyniad mae'r maes parcio yn fwy a mwy prysur. Hefyd a fydddech cystal ac osgoi parcio yn yr ardal gollwn / drop-off, gan fod hyn yn amharu ar rediad y traffig. Cofiwch y gallwch wneud defnydd o'r clwb brecwast fel y nodwyd. Dylid hefyd osgoi cyrraedd yr ysgol yn ystod y munudau olaf cyn 8.55 pan fydd y gloch yn canu. Yn ddelfrydol, dylid ymadael o'r maes parcio unwaith y bydd eich plentyn wedi cyrraedd yr ysgol. Bydd aelod o staff yr ysgol ar fuarth yr ysgol o 8.45 ymlaen hyd at pan fydd cloch yr ysgol yn canu am 8.45.

Bydd y staff yn parcio yn y manau pellaf o'r ysgol, ac felly bydd posib parcio dwbl yn y manau hyn os oes angen. Opsiwn arall fyddai i barcio yn y maes parcio ar y Bonc Wen a cherdded ychydig i'r ysgol. **Hoffwn hefyd eich atgoffa na oes caniatad i gŵn ddod ar gampws yr ysgol.** Diolch am eich cyd-weithrediad.

Gwisg Ysgol

Mae'n braf gweld y plant i gyd yn edrych mor daclus yn ei gwisg ysgol ar gychwyn y flwyddyn. Diolch i chi am cydweithrediad wrth sicrhau fod y plant yn gwisgo'r wisg gywir, yn ogystal a esgidiau du. Gawn ni eich atgoffa mai cwmni **RAM Leisure** sydd yn gwerthu ein gwisg ysgol. Eu cyfeiriad yw **Trinity House, Whitegate Industrial Estate, Whitegate Rd, Wrecsam LL13 8UG**. Eu rhif ffôn yw **01978 360360**. Gallwch archebu ar eu gwefan www.ourschoolwear.co.uk. Cliciwch ar 'junior schools' a gallwch weld bathodyn yr ysgol. Bydddech yn cael eich cyfeirio at y dudalen perthnasol. Cofiwch labelu dillad eich plentyn, gan gynnwys esgidiau.

Gair hefyd i'ch atgoffa fod eich plentyn angen gwisg addysg gorfforol addas ar gyfer sesiynau wythnosol. Gofynnwn i'r plant wisgo shorts glas/'navy' a chrys T/polo glas/'navy' ar gyfer y sesiynau hyn. Gall y plant wisgo crys polo glas yr ysgol pe dymunir ar gyfer y sesiynau hyn.

Schoop - Cofiwch eich bod yn diweddar manylion ar Schoop os oes angen er mwyn derbyn y wybodaeth gywir ar Schoop.

Byrbryd Bore

Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion y Meithrin a'r Derbyn i dalu am eu ffrwythau (bwyd bore) am yr hanner tymor llawn. Gofynnwn i chi dalu £7 am yr hanner tymor yma yn ystod wythnos nesaf, gan y bydd yn arbed amser ac yn hwyluso trefniadau casglu arian. Rydym yn annog y plant i fwyta'n iach gan ddod a byrbryd iachus ar gyfer amseroedd egwyl. Gofynnwn i'r plant osgoi bwyta creision, siocled a fferins fel byrbryd, yn ogystal a diodydd melys a pop.

Dod a arian i'r ysgol

Pan fydd angen i'r plant ddod a arian i'r ysgol ar gyfer unrhyw weithgaredd, a fydddech cystal; a rhoi yr arian mewn amlen wedi ei labelu yn glir, gan ei gyflwyno i'r athrawon dosbrath. Diolch.

Cinio Ysgol

Pris cinio ysgol yw **£2.25 (Cyfnod Sylfaen) a £2.30 (Bl. 3/4/5 a 6)**. Ni fydd yn bosib cynnig cinio i unrhyw blentyn sydd yn ddyledus o gyfnod o wythnos neu fwy. A fydddech cydtal a sicrhau nad yw'r sefyllfa yma yn codi.

Cyrraedd a mynd adref o'r ysgol

Yn ystod y tymor diwethaf gofynwyd i chi fel rhieni/gofalwyr i gofnodi gwybodaeth ar gyfre trefniadau casglu plant o'r ysgol, gan ei fod yn ymddangos fod sawl plenty yn ymadael a'r ysgol ar ben ei hunain. Os nad ydych wedi cyflwyno'r wybodaeth yma i'r ysgol, yna a fydddech cystal a chwblhau'r ffurflen isod gan ei ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted a phosib. Rydym yn hapus i blant blwyddyn 6 gerdded adref heb oedolyn os yw'r rhieni yn caniatáu, ond gofynnwn i drefniadau gael ei gwneud i gasglu plant hyd at flwyddyn 5 o fuarth yr ysgol. Os ydych yn bardo wedi hysbysu'r ysgol o'r trefniadau, yna ymddiheuriadau. Diolch.

Diogelwch o fewn yr adeilad

Yn amlwg mae diogelwch bob amser yn flaenoriaeth yn yr ysgol. Hoffwn eich atgoffa o drefniadau mynediad i rieni a gofalwyr i'r adeilad. Os oes angen cael mynediad i'r adeilad am unrhyw reswm, dylid mynd at y dderbynfa yn gyntaf i egluro y rheswm dros fod angen dod i'r adeilad. Bydd angen caniatad cyn gallu cael mynediad i'r prif adeilad.

Holiadur rhieni - Gorffennaf 2016

Diolch i bawb a wnaeth gwblhau yr holiadur cyn gwyliau'r haf. Roedd yn braf gweld fod yr ymatebion yn rhai mor bositif. Er hynny, roedd rhai negeseuon pwysig yn dod o'r holiaduron, sydd yn barod wedi ei rhannu gyda staff, gyda rhai elfennau yn bwydo i gynllun gwella'r ysgol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Rhodri Jones

Pennaeth

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

Enw'r plentyn / Child's name: _____

Blwyddyn ysgol / School year group: _____

Athro/awes / Teacher: _____

Trefniadau diwedd dydd i gasglu fy mhientyn / Arrangements made for collecting my child at the end of the school day:

Dyddiad / Date: _____

Arwyddwyd / Signed: _____ Rhiant/Gofalwr
Parent / Guardian
